# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON 03/05/2006

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2006- 0038- Cefnogi Diwydiant Adeiladu Cymru / Supporting the Welsh Construction Industry

**Codwyd gan / Raised By:** Kirsty Williams

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**

**Supporting the Welsh Construction Industry**

This Assembly believes that payment security in the Welsh construction industry is essential in achieving the aim of a vibrant and profitable SME sector:

This Assembly calls on the Secretary of State for Trade and Industry to amend the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996, so that:
- there is a statutory mechanism for defining the amount to be paid at the date for payment
- all conditional payment provisions and cross contract set-off are outlawed
- progress payments start from commencement of contract
- the Act provides effective protection for firms in the supply chain from 'upstream' insolvencies

**Cefnogi Diwydiant Adeiladu Cymru**

Cred y Cynulliad hwn ei bod yn hollbwysig diogelu taliadau yn niwydiant adeiladu Cymru er mwyn sicrhau'r nod o gael sector MBCh sydd yn fywiog ac yn broffidiol.

Geilw'r Cynulliad hwn ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i ddiwygio Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, er mwyn sicrhau:
- bod mecanwaith statudol ar gael i ddiffinio'r swm sydd i'w dalu ar y dyddiad talu
- bod pob darpariaeth ar gyfer taliadau amodol a gwrthbwyso traws-gontract yn cael ei gwahardd
- bod taliadau cynnydd yn cychwyn ar ddechrau'r contract
- bod y Ddeddf yn darparu gwarchodaeth effeithiol i gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi rhag ansolfedd sy'n digwydd yn uwch yn y gadwyn